

DANGOSFWRDD RHWYDWAITH ARDDANGOS

Rhagfyr 2016 – Chwefror 2017



Sgôr RAG


■ Coch: Dan y targed ■ Oren: Bron â chyrraedd y targed ■ Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

Gwyrdd	Mae'r prosiectau a'r digwyddiadau yn unol â'r targed
--------	--

Rhwydwaith Safleoedd Arddangos

Safle Arloesedd	8
Safle Arddangos	12
Safle Ffocws (Cyfanswm cronnus)	63

Map



■ = Safleoedd Arloesedd ■ = Safleoedd Arddangos ■ = Safleoedd Ffocws

Digwyddiadau a gynhaliwyd ar y Rhwydwaith Ffermydd Arddangos

Blwyddyn 2 – 1 Hydref 2016 – 28 Chwefror 2017

Disgrifiad	Cyfanswm Digwyddiadau (Targed Blynnyddol)	Cyfanswm Digwyddiadau (a gynhaliwyd)
Digwyddiadau safleoedd arloesedd	30	8
Digwyddiadau Safleoedd Arddangos	36	34
Digwyddiadau Safle Ffocws	54	30

Mae 1163 wedi mynychu digwyddiadau'r Rhwydwaith Arddangos.

Adborth o'r diwydiant:

98% YN NODI BOD Y DIGWYDDIADAUYN WYCH


98% WEDI DYSGU RHYWBETH NEWYDD

87% YN BWRIADU NEWID EU HARFERION YN DILYN Y DIGWYDDIAD HWN



Nifer y prosiectau gweithredol yn ystod y cyfnod

1 Hydref 2016 – 28 Chwefror 2017



Mae ambell brosiect wedi'i ddynodi dan fwy nag un sector: Prosiect Porfa Cymru er enghraifft. Cymerir y glaswellt oddi ar ffermydd bîff, defaid a llaeth.

Prosiectau ar Ffermydd


BYW HEB GLOFFNI

Gan weithio gyda'r FAI (Food Animal Initiative) mae Cyswllt Ffermio wedi cychwyn prosiect **'Byw heb gloffni'** ar 5 safle ar draws y rhwydwaith arddangos. Mae'r prosiect yn anelu ar liehau ac yn y pen draw i waredu cloffni ar y safleoedd yma a dangos ffordd effiethiol o gyflawni hyn i ffermwyr defaid eraill. Mae cynnydd sylweddol eisoes wedi'i wneud trwy weithredu egwyddorion y 4 pwynt, sef:

1. Triniaeth gynnar
2. Osgoi cronni clefydau
3. Brechu
4. Difa
5. Cadw stoc newydd mewn cwarantîn

CYNNYDD HYD YMA

	Canrannau Sganio	Sgôr Cyflwr Corff y Famog 1-5
RHIWGRIAFOL	Cynnydd o 10%	Cynnydd o 0.5
TYNYBERTH	Cynnydd o 15%	Cynnydd o 0.5



CANFOD A THRIN PNEUMONIA YN GYNNAR



Gan weithio gyda Dai Grove-White o Brifysgol Lerpwl a Sara Pedersen o gwmni Farm Dynamics Lts, mae prosiect Cyswllt Ffermio wedi darganfod y gellir osgoi cost o £46.50 y llo wrth wella maeth y llo a'r amgylchedd.

Mae canfod a thrin pneumonia yn gynnar yn rhan hanfodol o'r cynllun iechyd ar fferm Llindir o ganlyniad i'r effaith niweidiol y mae'n ei gael ar gostau cynhyrchu. Mae gwaith prosiect ar fferm Llindir wedi dangos bod lleihad o 0.2kg/dydd mewn cynnydd pwysau byw dyddiol am bob llo sy'n derbyn triniaeth pneumonia, gan arwain at wariant sylweddol wrth ystyried bod 20% o'r lloeau'n cael eu trin.

COSTAU PNEUMONIA

Lleihad o 0.2 Kg/ y dydd o ran tyfiant i bob llo sydd wedi'i effeithio

Cynnydd pwysau a gollwyd (110 diwrnod ar y fferm)
= 22Kg @ £2/Kg = **£44 y llo**

Costau triniaeth ar gyfer pob llo **£1.50 - £3.00**

Costau triniaeth ar gyfer pob llo **£1.50 - £3.00**

Effeithio ar 20% (o 1400 llo) = **280 llo**

Cyfanswm y gost ar fferm Llindir = **280x46.50 = £13020**
Yn ogystal â marwolaethau a cholledion pwysau o ganlyniad i "fethu achosion"


PROFION PARLWR DYNAMIG
Prosiect Safle Ffocws

- Arbed **£30,345** yn flynyddol trwy raddnodi offer y parlwr godro. Roedd gwelliannau ychwanegol yn arferion y parlwr yn cynnwys:
- Lleoliad y clwstwr – godro'r gadair/pwrs yn unffuf
 - Lleihau gor-odro – llai o niwed i'r deth
 - Cyflymder gollwng llaeth – lleihau amser wrth odro
 - Gorchuddio'r deth yn well wrth ddipio ar ôl godro, o 60% i 80% – gwell arferion glendid



RHEOLI MASTITIS

Lleihad sylweddol yn y defnydd a wneir o wrthfotigau ac arbediad ariannol o **£55,000** trwy weithredu Cynllun Rheoli Mastitis AHDB Llaeth ar un o Safleoedd Ffocws Cyswllt Ffermio.



MARIAN MAWR

Dangosodd prosiect profi genomig amrediad eang o ran Mynegai Proffidioldeb Oes (PLI) yr heffrod gyda gwahaniaeth o **£235 PLI** rhwng y llo gyda'r mynegai uchaf a'r isaf.

- OES
- Kg LLAETH
- Kg BRASTER
- Kg PROT
- % BRASTER
- % PROT

TYREGLWYS

Gwella arferion canfod gwartheg yn gofyn tarw

Gwnaed arbediad o **£27,000** ar safle arddangos llaeth Tyreglwys, trwy sicrhau lleihad o 34 diwrnod yn nifer y dyddiau cyn cenhedlu. Gwnaed hyn drwy wella arferion canfod gwartheg yn gofyn tarw, cyfradd beichiogi a chyfradd cenhedlu, gan osgoi'r costau cyfartalog o £5 y dydd am bob diwrnod pan nad yw'r fuwch yn gyflo.



Dangosyddion Perfformiad Allweddol Ffrwythlondeb ar fferm Tyreglwys

	Cyfradd canfod gwartheg sy'n gofyn tarw		Cyfradd beichiogi		Cyfradd cenhedlu	
	Blaenorol	Presennol	Blaenorol	Presennol	Blaenorol	Presennol
Holstein	48%	62%	10%	20%	20%	31%
Ayrshire	46%	61%	12%	20%	26%	33%

ABERBRANDDU

Opsiynau pesgi ŵyn

Roedd ŵyn a oedd yn pori'r gwndwn newydd yn perfformio'n well na'r 4 opsiwn arall ar gyfer pesgi ŵyn mewn prosiect Safle Arddangos ar fferm Aberbranddu, Pumsaint, a oedd yn anelu at werthuso 5 dull gwahanol o besgi ŵyn.

O ran elw fesul oen:

- Gwndwn newydd – £7.92 yr oen, hen wndwn £5.16
- Bwydo ar ddwysfwyd dan do £3.24
- Hen wndwn a dwysfwyd £1.76
- Nid oedd y rêp porthiant wedi sefydlu'n ddigonol er mwyn cymharu

GWNEUDY DEFNYDD GORAU O GOED



Ar fferm Skirrid Farm, Llanddewi Skirrid, ger Y Fenni, mae 300 tonnell o goed wedi cael eu cwmpo o floc 0.65 ha o goed conwydd. Ynghyd â Phyrwydd Sitca o'r llain gysgod, cafodd coed Llarwydd a Derw hefyd eu cwmpo, gyda'r bwriad o greu cynnyrch gwerthfawr ar gyfer y busnes fferm o adnodd nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

CYFATHREBU'R CANLYNIADAU

Mae cyfathrebu canlyniadau'r gwaith a wneir ar y rhwydwaith arddangos yn hanfodol. Mae Cyswllt Ffermio'n defnyddio nifer o ddilliau i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn manteisio ar y wybodaeth a ddaw o'r prosiectau, gan gynnwys:

- Erthyglau cynhyrchwyd 58 – mae pob erthygl ar y wefan a, gan ddibynnu ar y cynnwys, mae rhai'n cael eu rhannu gyda'r Farmers Guardian, Farmers Weekly, NSA a'r Undebau Ffermio.
- Blogiau a Vlogiau i gynnig diweddariadau ar safleoedd – mae 40 wedi'u cwblhau hyd yma ac wedi cael eu gweld dros 3,000 o weithiau
- Cyfryngau Cymdeithasol
- Sianel YouTube

